Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod Cyntaf y Pwyllgor Dethol**
**Dyddiad: 7 Mai 2025, Amser: 13:30-15:30**
**Lleoliad: *MS Teams***
**Cadeirydd y Cyfarfod: CHTh Dafydd Llywelyn**

| | |
|---|---|
| **Members** | • Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), Dafydd Llywelyn (Cadeirydd)<br>• Prif Weithredwr, Swyddfa CHTh (SCHTh), Carys Morgans<br>• Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau (SCHTh), Alison Perry<br>• Prif Swyddog Cyllid (SCHTh), Nicola Davies<br>• Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Caroline Wheeler<br>• Aelod o'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, Davinia Davies<br>• Llysgennad Ieuenctid, Bradley Cole<br>• Llysgennad Ieuenctid, Alex Molotska<br>• Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd / Cynrychiolydd o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd |
| **Also present** | • Ymgynghorydd Polisi (SCHTh), Hannah Hyde<br>• Ymgynghorydd Polisi (SCHTh), Sarah Francis<br>• Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh), Ellen Jones<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol (SCHTh), Sophie Morgan<br>• Ymgynghorydd Ymgysylltu (SCHTh), Emily Wheeler<br>• Swyddog Cymorth Comisiynu a Phartneriaethau (SCHTh), Anna Bowden |
| **Apologies** | • Llysgennad Ieuenctid, Kai Collins |

*Mae'r nodiadau hyn yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a'r camau gweithredu a sefydlwyd yng nghyfarfod cyntaf Pwyllgor Dethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.*

## 1. Ymddiheuriadau, cyflwyniadau, ac aelodaeth

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Dyfed-Powys, yw cadeirydd y Pwyllgor Dethol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Dethol yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Gweithredol CHTh, y Panel Heddlu a Throseddu, y Cyd-bwyllgor Archwilio, y Panel Datrysiadau Tu Allan i'r Llys, a chynlluniau gwirfoddoli Llysgennad

Ieuenctid, Panel Sicrhau Ansawdd, ac Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd CHTh.

Croesawodd CHTh aelodau'r Pwyllgor Dethol, gan ddiolch iddynt am eu parodrwydd i fod yn rhan o'r broses newydd hon, a'r gwaith maen nhw'n ymgymryd ag ef.

## 2. Trefniadau llywodraethu newydd ac ymagwedd Adolygu'r Pwyllgor Dethol

Pwysleisiodd CHTh ymagwedd y Pwyllgor Dethol fel ymdrech newydd ar gyfer y Swyddfa; newid yn y ffordd yr ymgymerir â gwaith craffu manwl.

Ar ôl iddo gael ei ail-ethol ym mis Mai 2024, adolygodd ac ailstrwythurodd CHTh drefniadau llywodraethu a gydlynir gan Swyddfa CHTh (SCHTh), h.y. y ffordd mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn cael ei ddal i gyfrif. Symleiddiodd CHTh ei gyfarfodydd Bwrdd Plismona, cyflwynodd ei gyfarfodydd Bwrdd Perfformiad Strategol, a datblygodd y Pwyllgor Dethol.

O fewn ei Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025-29, nododd CHTh ymrwymiad i *"weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a chymunedau i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl, gan wella eu profiad a'u canlyniadau"*.

O'r blaen, cynhaliodd SCHTh yn unig adolygiadau craffu dwys o feysydd ffocws allweddol, megis dioddefwyr yn tynnu'n ôl, mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon, a rheoli troseddwyr stelcio ac aflonyddu. Mae'r ymagwedd Pwyllgor Dethol newydd yn galluogi carfan ehangach o randdeiliaid allweddol ac, yn bwysig, y cyhoedd, i chwarae rhan yng ngweithgarwch craffu CHTh.

Mae Cylch Gorchwyl hollgyffredinol y Pwyllgor Dethol ar gael ar wefan CHTh, ynghyd â Chylch Gorchwyl ar wahân ar gyfer pob adolygiad yr ymgymerir ag ef gan y Pwyllgor Dethol.

## 3. Cadarnhau'r Cylch Gorchwyl

Cymeradwyodd aelodau'r Pwyllgor Dethol y Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygiad cyntaf y Pwyllgor. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

Ailadroddodd CHTh gylch gorchwyl a ffocws yr adolygiad:
*1. Beth yw effaith gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid ar gyfer pobl ifainc 18-25 oed?*

*2. Pa welliannau, os o gwbl, sydd angen o ran darpariaeth gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer pobl ifainc 18-25 oed?*

**Cam Gweithredu 1: Y Gweithgor i rannu dogfen sy'n nodi'r rhesymeg dros ddethol y maes ffocws a'r grŵp oed uchod: dogfen PICK a SAND.**

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Dethol y byddai Cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein, drwy *Teams*, ac y byddai Gwrandawiadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

**4. Diweddariad gan y Gweithgor**

Aeth aelodau'r Gweithgor drwy amserlen adolygiad y Pwyllgor Dethol, canfyddiadau cychwynnol y gweithgarwch mapio yr ymgymerwyd ag ef i sefydlu gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n bodoli eisoes, data HDP a data cenedlaethol sy'n berthnasol i gylch gwaith yr adolygiad, a chanfyddiadau gweithgarwch craffu ac ymchwil blaenorol.

**Cam Gweithredu 2: Aelodau'r Pwyllgor Dethol a'r Gweithgor i ystyried pa un ai a ddylid cynnwys gwasanaethau ymgysylltu, atal ac ymyrraeth trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddarperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a sefydliadau trydydd sector yn y gweithgarwch mapio.**

**Cam Gweithredu 3: Y Gweithgor i ddarparu crynodeb pellach o'r data trosedd, o ran poblogaeth a mathau penodol o droseddau.**

**Cam Gweithredu 4: Y Gweithgor i gadarnhau'r diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i fabwysiadu gan HDP.**

**Cam Gweithredu 5: Y Gweithgor i gael eglurhad am gofnodi troseddau, yn benodol, mewn achosion lle mae dau drosedd wedi'u cyflawni gan yr un unigolyn ar yr un pryd.**

**Cam Gweithredu 6: Y Gweithgor i egluro pa ddata mae'n rhaid i HDP gyhoeddi.**

## 5. Cwestiynau a thystion arfaethedig ar gyfer Gwrandawiad cyntaf y Pwyllgor Dethol

Yn unol â'r camau gweithredu a nodir uchod, cytunwyd bod angen gwybodaeth bellach er mwyn i aelodau'r Pwyllgor Dethol wneud penderfyniad gwybodus o ran meysydd ffocws a thystion i alw arnynt ar gyfer y Gwrandawiad cyntaf.

**Cam Gweithredu 7: Y Gweithgor i dynnu gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â chyfathrebu â phobl ifainc o archwiliad PEEL Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF) diweddaraf HDP.**

**Cam Gweithredu 8: Y Gweithgor i ystyried gwybodaeth am aildroseddu i arddangos llwyddiant gwasanaethau.**

## 6. Gweithgarwch craffu ac ymgysylltu arfaethedig

Rhoddodd aelodau'r Gweithgor drosolwg o weithgareddau craffu ac ymgysylltu arfaethedig.

**Cam Gweithredu 9: Y Gweithgor i gynnwys Llysgenhadon Ieuenctid mewn gweithgareddau ymgysylltu.**

**Can Gweithredu 10: Y Gweithgor i ystyried sut i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifainc sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau ymgysylltu, ymyrraeth ac atal.**

## 7. Unrhyw fusnes arall

Ni chyflwynwyd unrhyw fusnes pellach.

## 8. Gwrandawiad/Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol ar 4 Mehefin am 13:30.